



Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 13^{eg} o Fehefin 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Dirprwy Faer y Cyng. Owen James, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Christoph Fischer
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Robert Jones.

Cof 75 / Meh / 18 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 76 / Meh / 18 I Ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer 2018/19

Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace y Cyng. Owen James, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 77 / Meh / 18 I Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer 2018/19

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y Cyng. Christopher Parish, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 78 / Meh / 18 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

- E/37247 Newid defnydd o Glinig Milfeddygol i siop fanwerthu (A1), altradau i agoriad ffenest a drws newydd yn 6, Stryd y Brenin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu i gyd.
- E/37248 Cais adeilad rhestredig ar gyfer yr uchod.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer adeiladau rhestredig.
- E/37249 Newid y defnydd a wneir o'r llawr gwaelod, o Emydd (A1) i salon harddwch (Sui Generis) ac altradau i adeilad rhestredig Gradd 2 yn 127, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu i gyd.
- E/ 37250 Cais adeilad rhestredig ar gyfer yr uchod.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer adeiladau rhestredig.
- E/37369 Codi tŷ gwydr gwydrog bach ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, nesaf at y rhandiroedd, sy'n agored i'r cyhoedd, ar Fferm y Plas Dinefwr.

Sylw: Dim gwrthwynebiad, ond cododd y Cyngorwyr bryder fod cais blaenorol, a gymeradwywyd i godi paneli solar gerllaw, wedi cael ei basio ar yr amod y byddai clawdd yn cael ei blannu i guddio'r paneli rhag yr heol. Mae'r ffaith nad yw wedi cael ei blannu, bedair blynedd yn ddiweddarach, yn sicr yn groes i amodau'r cais gwreiddiol.

Cof 79 / Meh / 18 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/37011 **RHODDWYD**
E/37124 **DAN YSTYRIAETH**
E/36876 **RHODDWYD**
E/36741 **RHODDWYD**

Cof 80 / Meh / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Steven Morgan CSG (Eiddo) ynglŷn â chynhyrchu trwydded i feddiannu caban symudol yn Nhregib.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb dan ei yswiriant ei hun, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

2. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn gofyn i'r Swyddog Cynllunio am ei sylwadau p'un ai gellir gosod ffenestri gwydr dwbl du mewn ardal gadwraeth, heb ganiatâd cynllunio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 81 / Meh / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd y Swyddog Technegol bod Hugh Gwynne wedi symud y ffens diogelwch o amgylch y cwrt MUGA ym Mharc Le Conquet, am resymau diogelwch. Roedd gwaith ar beth o'r offer yn y parc heb ei gwblhau'n llwyr.

Cof 82 / Meh / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Roedd Mr Crawford, trigolyn lleol, wedi ysgrifennu i achwyn am fyrddau 'A' y tu allan i siop Chippery ar Stryd Rhosmaen, am eu bod yn creu rhwystr ar y palmant i ddefnyddwyr cadair olwyn. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn anfon yr e-bost a ddaeth i law ymlaen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd, er mwyn derbyn eu sylwadau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish.

Cof 83 / Meh / 18 Gohebiaeth

1. Adran Blaen Gynllunio CSG. Gwahoddiad i fynychu gweithdy ar y CDLI newydd yn y Neuadd Ddinesig ar y 30^{ain} o Orffennaf. Byddai'r Cyng. Colin Jenkins a'r Cyng. Christopher Parish yn mynychu.

Cof 84 / Meh / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.